| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Tachwedd 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol drafft Panel Taliadau Annibynnol Cymru 2014/15** |

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud ag adroddiad drafft Panel Taliadau Annibynnol Cymru ar gyfer 2014/15 y mae'r Cyngor yn cael ymgynghori arno.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gofyn am farn yr Aelodau ar yr adroddiad drafft er mwyn i'r Cyngor lunio ymateb i'r Panel.

## 3 Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad drafft ac yn datgan eu sylwadau er mwyn i'r Cyngor lunio ymateb.

## 4 Manylion am yr adroddiad

4.1 Sefydlwyd Panel Taliadau Annibynnol Cymru yn 2008. Cafodd cylch gorchwyl a swyddogaethau'r Panel eu hymestyn ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae cylch gorchwyl y Panel yn cynnwys taliadau Cynghorwyr Sir a thaliadau aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned.

4.2 Mae'r Panel yn gallu pennu swm y taliad y gall awdurdod ei roi i Aelod ac yn gallu pennu'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a all olygu y caiff Cynghorwyr dâl am ymgymryd â nhw.

4.3 Mae'n ofynnol i'r Panel lunio adroddiad blynyddol sy'n nodi tâl Aelodau am ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r flwyddyn ddinesig nesaf. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwnnw gael ei lunio erbyn mis Chwefror a rhaid i'r adroddiadau fod yn destun ymgynghoriad gyda Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a chyrff eraill dan gylch gorchwyl y Panel.

4.4 Mae'r Panel wedi cynhyrchu adroddiad drafft 2014/15 er dibenion ymgynghori. Mae'r ymgynghoriad ar yr adroddiad drafft ar agor tan 26 Tachwedd. Bydd y Panel wedyn yn cyhoeddi adroddiad terfynol cyn diwedd mis Chwefror 2014, a bydd argymhellion yr adroddiad yn dod i rym yn 2014/15. Mae'r adroddiad i'w weld yn Atodiad 1.

4.5 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol weithredu argymhellion y Panel.

4.6 Wrth baratoi Adroddiad Blynyddol drafft 2014/15 bu i aelodau'r Panel ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol i dderbyn barn yr Aelodau a’r swyddogion.

4.7 Mae'r adroddiad drafft yn nodi’r tri band tâl, nifer y cynghorwyr ym mhob un a nifer y cyflogau uwch a delir. Mae’r grwpiau hyn wedi eu nodi yn Nhabl 1. Mae Tabl 2 yn nodi'r cyflogau sylfaenol a’r uwch gyflogau fydd yn daladwy i Aelodau yn 2014/15.

4.8 Mae'r cyflog sylfaenol wedi codi o £13,175 i £ 13,300.

4.9 Mae’r Panel o’r farn nad yw cynnal gwerthoedd democrataidd llywodraeth leol yn ddigost. Mae taliadau a ariennir yn gyhoeddus ar gael i annog amrywiaeth o bobl leol i gymryd rhan yn eu llywodraeth leol, p’un ai ydynt wedi eu hethol, cyfethol neu eu penodi.

4.10 Yn adroddiad 2009 bu i’r Panel benderfynu alinio taliadau i Aelodau ar sail enillion gros canolig gweithiwr cyflogedig llawn amser sy'n preswylio yng Nghymru. Pennwyd y cyflog sylfaenol ar 3/5 o gyflog canolig Cymru gyfan a phennwyd yr uwch gyflog ar luosrifau o'r cyflog canolig blynyddol hwn. Wrth bennu’r cyflogau, bu i’r Panel gydnabod bod Aelodau yn gwneud cyfraniad cyhoeddus di-dâl.

4.11 Yn ystod y tair blynedd diwethaf, rydym ni wedi gweld gostyngiad yn adnoddau’r awdurdodau lleol yn sgil unfannu cyflogau’r sector cyhoeddus. Daeth y Panel i'r casgliad y byddai cadw'r aliniad hwn yn arwain at gynnydd amhriodol yn lefel y tâl. Mae hyn wedi arwain at ostwng y cyflog sylfaenol yn nhermau real yn ystod y cyfnod hwn. Gan fod cyfyngiadau tâl y sector cyhoeddus wedi eu llacio eleni, mae'r Panel wedi penderfynu cynyddu’r cyflog sylfaenol o lai nag 1% o wanwyn 2014 ac i gynyddu taliadau eraill yn yr un modd.

4.12 Yn ei drafodaethau gydag Aelodau a swyddogion Cynghorau, roedd y Panel yn teimlo bod awydd i gynyddu hyblygrwydd yn y fframwaith tâl a chadw lefelau tâl yn gyson ar draws y wlad. Sylwodd y Panel hefyd ar ystod strwythurau pwyllgorau ar draws Cymru a’r dulliau gwahanol o ddyrannu dyletswyddau a chyfrifoldebau i Aelodau etholedig.

4.13 Felly, mae'r Panel wedi cyflwyno lefelau cyfrifoldeb fel bod pob Cyngor yn penderfynu ar lefel y taliadau i Gadeiryddion Pwyllgorau, Penaethiaid Dinesig a Dirprwy Benaethiaid Dinesig.

4.14 <u>Uwch Gyflog Band 1 a 2</u> – Mae’r Panel wedi pennu pum band Uwch Gyflog. Mae Band 1 yn cynnwys Arweinwyr a Dirprwy Arweinyddion ac mae Band 2 yn cynnwys Aelodau Cabinet. Yn nhrafodaethau'r Panel gydag Aelodau etholedig ar draws Cymru, roedd nifer yn cytuno mai’r swyddi arwain a gweithredol yw’r swyddi â mwyaf o gyfrifoldebau. Mae'r Panel hefyd wedi derbyn sylwadau bod y cyfrifoldebau hyn, beth bynnag yw maint y boblogaeth a wasanaethir gan y Cyngor, yn aml iawn yr un fath ar draws y wlad. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi penderfynu bod maint y boblogaeth yn parhau i fod yn ffactor mawr sy’n effeithio ar lefelau cyfrifoldeb ac mae’r Panel wedi penderfynu parhau i ystyried y grwpiau boblogaeth fel y nodir yn Nhabl 1 at ddibenion Uwch Gyflogau ym Mandiau 1 a 2. Mae'r Panel, fodd bynnag wedi gwneud mân addasiadau ar gyfer cyflogau a dalwyd ym Mandiau 1 a 2 i leihau'r gwahaniaethau rhwng cynghorau sydd â grwpiau poblogaeth gwahanol.

4.15 Band 3 – Mae'r Panel yn dweud bod consensws sylweddol ledled Cymru nad yw cyfradd cyflog unigol Cadeiryddion Pwyllgorau Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth y swyddi, cyfrifoldebau na'r llwyth gwaith.

4.16 Mae'r Panel felly wedi cyflwyno lefelau cyfrifoldeb. Mae tair lefel cyfrifoldeb ar gyfer Uwch Gyflog Band 3 a bydd yn rhaid i bob awdurdod benderfynu ar y lefel tâl priodol ar gyfer eu Cadeiryddion, eu Penaethiaid Dinesig a'u Dirprwy Benaethiaid Dinesig.

4.17 Band 4 a 5 - Mae'r Panel o'r farn fod taliad arweinydd y wrthblaid fwyaf yn bwysig i ddemocratiaeth leol. Mae'r Panel felly wedi penderfynu bod yn rhaid i'r Uwch Gyflog hwn gael ei dalu.

4.18 Mae lefel y taliad hwn yn cael ei phennu ar Lefel 1 Uwch Gyflog Band 3 h.y. y lefel uchaf o gyfrifoldeb ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgor.

4.19 Mae'r Panel yn nodi mai dim ond cyflogau rhai arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill sydd wedi eu dyrannu. Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai'r cyflogau hyn fod yn oddeutu £17,000 y flwyddyn fel y nodir yn Nhabl 2.

4.20 Penaethiaid a Dirprwyon Dinesig - yn ystod ei ymgynghoriad yn 2013, bu i'r Panel ystyried yr amrywiaeth yn y lefel o gefnogaeth a roddir, y gost ariannol ac yn lefel y gweithgaredd mewn blwyddyn. Mae'r rhain holl yn amrywio o awdurdod i awdurdod a sylweddolwyd nad yw maint awdurdod yn ddangosydd dibynadwy o ran yr ymrwymiad sydd ei angen, neu a roddir gan Benaethiaid Dinesig. Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd y swm sydd i'w dalu i Benaethiaid Dinesig yn cael ei bennu gan awdurdodau lleol a fydd yn ystyried llwyth gwaith a chyfrifoldebau disgwyliedig y Penaethiaid Dinesig. Mae Tabl 3 yn nodi pa Gyflogau Dinesig sydd ar gael i Aelodau'r Prif Gynghorau. Mae tri band (A, B ac C) y gall awdurdodau lleol ddewis ar gyfer Cyflogau Dinesig. Nid yw'r grwpiau poblogaeth yn cael eu hystyried wrth bennu Cyflogau Dinesig. Nid yw Cyflogau Dinesig wedi eu cynnwys yn uchafswm Uwch Gyflogau awdurdodau. Gall Gynghorau benderfynu peidio â thalu Cyflogau Dinesig.

4.21 Nid oes unrhyw newid i dreuliau teithio y gellir eu hawlio. Mae'r Panel wedi cael gwared ar y categori llety dros nos yng Nghaerdydd o'r lefelau a argymhellir ar gyfer costau llety dros nos. Bellach, ceir cyfradd ar gyfer Llundain a chyfradd ar gyfer pob aelod arall.

4.22 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) 2013 yn caniatáu i awdurdodau lleol benodi Aelod Llywyddu (a fyddai'n cadeirio cyfarfodydd busnes y Cyngor) yn ogystal â Phennaeth Dinesig. Gall Gynghorau hefyd benodi Dirprwy Aelod Llywyddol.

4.23 Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd Aelodau Llywyddu yn derbyn tâl ar lefel briodol Uwch Gyflog Band 3, fel y pennir gan y Cyngor, ac y byddai uchafswm uwch gyflogau yn berthnasol. Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd Dirprwy Aelodau Llywyddol yn derbyn tâl.

4.24 Mae'r Panel wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â gweithrediad y Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae Cadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys i dderbyn tâl sy'n adlewyrchu tâl Cadeirydd Pwyllgor (Band 3). Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu ar dâl y Cadeirydd. Mae'r cyflogau yn adlewyrchu'r Cyflogau Uwch sy'n daladwy dan Band 3 i Gadeiryddion Pwyllgorau.

4.25 Os yw Cadeirydd eisoes yn derbyn Uwch Gyflog ar gyfer swydd Band 3, 4 neu 5, bydd y taliad yn seiliedig ar un o'r tair lefel is (yr awdurdod sydd i benderfynu ar yr union lefel). Mae Cadeirydd Is-bwyllgor Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys i dderbyn tâl yn seiliedig ar un o'r tair lefel a nodir yn yr adroddiad. Unwaith eto, yr awdurdod sy'n penderfynu ar yr union lefel. Hefyd, mae lefel is yn daladwy i Gadeirydd Is-bwyllgor sydd eisoes yn derbyn Uwch Gyflog ar gyfer swydd Band 3, 4 neu 5.

4.26 Mae'n bosibl gwneud taliadau i Gadeiryddion Is-Bwyllgorau Tasg a Gorffen Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu ond mae'r rhain ar raddfa pro rata yn dibynnu ar hyd y dasg. Mae taliadau a wneir i Gadeirydd Cydbwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ychwanegol at y gyfran uchaf o aelodaeth yr awdurdodau sy'n gymwys i dderbyn Uwch Gyflog. Yn yr achos hwn, nifer yr Uwch Gyflogau yn Sir Ddinbych yw 17. Fodd bynnag, yn ôl y terfyn statudol ni ddylai mwy na 50% o Aelodau'r Cyngor dderbyn Uwch Gyflog. Mae'r Panel wedi cadw'r lefelau ar gyfer aelodau cyfetholedig ar yr un cyfraddau â'r blynyddoedd blaenorol.

4.27 Mae taliadau aelodau cyfetholedig yn aros ar y lefel bresennol. Mae rhai newidiadau i'r ffordd y cyfrifir yr amser a ganiateir i'w hawlio.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r penderfyniad yn ymateb i ymgynghoriad ac nid yw'n cyfrannu at y blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Faint fydd yn hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd y gost yn dibynnu ar benderfyniad y Cyngor yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol terfynol y Panel ym mis Chwefror 2014.

**7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

7.1 Ymgynghorwyd â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Mae'r adroddiad yn syml yn ymateb i ymgynghoriad ac, fel y cyfryw, nid oes goblygiadau ariannol mawr. Penderfynir ynglŷn â'r rhain unwaith y bydd y diwygiadau i'r cynllun wedi eu cadarnhau.

**9 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Mae methu ymateb i'r ymgynghoriad yn golygu na fydd barn y Cyngor yn cael ei hystyried.

**10 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972